

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y cyfarfod	12 Medi 2024
Aelod/Swyddog Arweiniol	Cynghorydd Rhys Thomas (Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau) / Helen Vaughan- Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau)
Pennaeth Gwasanaeth	Helen Vaughan-Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau)
Awdur yr adroddiad	Sian Taylor (Rheolwr Diogelwch Cymunedol)
Teitl	Diweddariad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer Ebrill 2023 - Mawrth 2024

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae adroddiad gweithgarwch a pherfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych yn seiliedig ar flaenoriaethau cyffredin y bartneriaeth sy'n deillio o archwiliad troseddau Gogledd Cymru a gynhelir bob blwyddyn. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cytuno ar y blaenoriaethau ac yna'n llunio cynllun gweithredu i'w gyflawni'n lleol dan oruchwyliaeth Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel. Yn lleol rydym yn cyflawni'r cynllun gweithredu hwn drwy ddadansoddi'r hyn sy'n digwydd yn ein hardal leol a gweithredu atebion lleol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau am weithgarwch Cyd Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych o Ebrill 2023 - Mawrth 2024, a'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen yn 2024/25 a manylion ynglŷn â'r ffordd yr ariennir y Bartneriaeth.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn ystyried cynnwys yr adroddiad sydd ynghlwm ynglŷn â pherfformiad ac ystadegau Ebrill 2023 - Mawrth 2024 ac yn gwneud sylwadau yn ei gylch.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Cafodd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eu creu ym 1998 er mwyn datblygu a rhoi strategaethau a chamau gweithredu ar waith i leihau trosedd ac anhrefn. Mae gan bob Awdurdod ei Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ei hun. Tua 16 mlynedd yn ôl, unodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) eu timau Diogelwch Cymunedol i greu un tîm, gyda CBSC yn gweithredu fel y prif gyflogwr. Y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau sy'n arwain y gwaith o reoli gweithgarwch y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn Sir Ddinbych.

- 4.2 Mae trefn cyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Leol yn cynnwys:

- Grŵp Llywio Strategol – a gynhelir yn chwarterol.
- Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – a gynhelir yn fisol.
- Grŵp Atal Troseddu Cyfundrefnol - a gynhelir yn fisol (mae hwn bellach yn cynnwys adran Clirio, Cynnal ac Adeiladu).
- Fforwm Diogelwch Cymunedol y Rhyl – a gynhelir yn chwarterol.
- Sefydliwr grwpiau Tasg a Gorffen yn ôl y gofyn i ymdrin â materion sy'n codi.

- 4.3 Y tri maes blaenoriaeth ar gyfer 2023-2024 oedd:

Maes blaenoriaeth 1 - Gweithio mewn Partneriaeth i Leihau Trosedd ac Anhrefn

- Lleihau troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr.
- Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Cefnogi pobl ddiamddiffyn er mwyn eu hatal rhag dioddef troseddau.
- Gostwng nifer y digwyddiadau ailadroddus o droseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol er lles dioddefwyr a chyflawnwyr.
- Gweithio gyda'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg i reoli nifer y bobl sy'n dioddef cam-drin domestig yn fynych.
- Ymdrin yn effeithiol ag achosion risg uchel o Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

- Cynyddu hyder pobl i roi gwybod am Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Codi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc o drais rhywiol.

Maes blaenoriaeth 2 - Gweithio mewn Partneriaeth i Leihau Aildroseddu – Blaenoriaeth Genedlaethol/Ranbarthol

- Gostwng aildroseddu gan oedolion/ieuenctid.

Maes blaenoriaeth 3 - Blaenoriaethau lleol

- Lleihau troseddau sy'n gysylltiedig â safleoedd trwyddedig a thacsis.
- Gwella hyder wrth adrodd am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i'r Awdurdod Lleol.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill wrth fynd i'r afael ag ardaloedd ble ceir nifer uchel o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Codi ymwybyddiaeth yn lleol o faterion troseddau sy'n dod i'r amlwg.

4.4 Mae gan bob maes blaenoriaeth nifer o ddangosyddion perfformiad i fonitro cynnydd a thueddiadau troseddau. Rydym yn adolygu'r holl ystadegau yn chwarterol ac yn fisol yn yr ardaloedd lleol ac yn gweithredu ar unrhyw fater sy'n codi.

4.5 Gweler ynghlwm adroddiad perfformiad ac ystadegau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2023-2024 (Atodiad 1).

4.6 Gweler ynghlwm fanylion gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n mynd yn ei flaen/a gynlluniwyd yn Sir Ddinbych yn 2024-2025 (Atodiad 2).

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Ble fo'n berthnasol, mae gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gyson â Thema Sir Ddinbych Gofalgar, Iachach a Hapusach Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae prosiectau'r bartneriaeth fel y'u nodir yn y Cynllun Gweithredu wedi'u hariannu'n llwyr drwy grantiau. Gall bob 'Awdurdod Cyfrifol' ddyrannu rhywfaint o gyllid i'w ddefnyddio'n uniongyrchol at ddibenion lleihau trosedd yn Sir Ddinbych. Gweler Atodiad 3 i gael rhagor o fanylion ynglŷn â'r cyllid.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Amherthnasol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Ymgynghorwyd ynghylch Cynlluniau Gweithgarwch 2023-2024 â holl Awdurdodau Cyfrifol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (yr Awdurdod Lleol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Prawf Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

8.2 Bydd yr Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Gwasanaeth yn Sir Ddinbych yn cael manylion ynglŷn â chynnwys yr adroddiad ac maent wedi bod yn rhan o'r Cyfarfodydd Strategol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

8.3 Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Craffu Partneriaethau'r Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'n bwysig bod yr arian i dalu costau darparu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Diogelwch Cymunedol yn dal i ddod drwy gyllid allanol a'r cyllidebau sydd ar gael.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Bod gwybodaeth sy'n dod i a gan yr Awdurdod Lleol yn cael ei rhannu'n briodol ac y gweithredir ar y wybodaeth. Caiff hyn ei reoli nawr drwy newyddlen diogelwch cymunedol ysgrifenedig chwarterol a anfonir at holl Gynghorwyr Sir Ddinbych, Aelod Arweiniol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a thrwy'r cyfarfod mewnol chwarterol a sefydlwyd o uwch swyddogion sy'n mynychu'r Byrddau Diogelwch Cymunedol a Diogelu Rhanbarthol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Diwygio'r Heddlu 2002
- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder
- Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009

- Dyletswydd Trais Difrifol - Deddf yr Heddlu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022
- Mae Adran 7.15.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn mynnu bod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau, yn ei swyddogaeth fel Pwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer Trosedd ac Anhrefn, yn gyfrifol am sicrhau yr adlewyrchir buddiannau'r Cyngor, ei adnoddau a'i flaenoriaethau yng ngwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, yn unol ag adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006.